

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ymgynghoriad ar ganllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol

Mawrth 2019



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol Mawrth 2019

Cynnwys

Ynghylch y CFFC	4
Trosolwg.....	5
Y broses ymgynghori	6
Cefndir.....	7
Ar waith: Canllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol	10
Cwestiynau'r ymgynghoriad	31

Ynghylch y CFfC

Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydym yn gweithio i sicrhau a gwella safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd eu cyrraedd cyn cael lle ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydym yn gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryder am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydym yn helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori rhwng **29 Mawrth** a **21 Mehefin 2019** ar ein canllawiau drafft ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol.

Mae'r ymgynghoriad hwn ynghylch canllawiau drafft i gefnogi presgripsiynwyr fferyllol i gyrraedd ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac i sicrhau eu bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol wrth bresgripsiynu.

Mae'r canllawiau drafft yn nodi'r hyn y dylai presgripsiynwyr fferyllol ei ystyried wrth baratoi bresgripsiynau. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio o fewn y GIG neu'n breifat – gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd – ac mewn rolau gofal iechyd yn y lluoedd arfog ac mewn carcharau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ein canllawiau drafft. Yn fwy penodol, rydym yn gofyn am farn ar:

- y meysydd allweddol ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol
- yr hyn mae'n rhaid i bresgripsiynwyr ei wneud er mwyn presgripsiynu'n ddiogel
- presgripsiynu a chyflenwi
- mesurau diogelwch wrth bresgripsiynu categorïau penodol o feddyginiaethau o bell, a'r
- effaith y gallai'r canllawiau hyn ei chael ar amryfal randdeiliaid

Rydym yn croesawu ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn presgripsiynu fferyllol. Yn arbennig, mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn ar effaith ein cynigion ar gleifion, y cyhoedd, gweithwyr fferyllol proffesiynol, a pherchnogion a chyflogeion fferyllfeydd.

Y broses ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos ac fe ddaw i ben ar **21 Mehefin 2019**. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, presgripsiynwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli cleifion ac eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi ymatebion unigolion. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw'ch sefydliad ac efallai y cyhoeddwn eich ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, rhaid i chi egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddoch yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i'r CFC ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfau sy'n ymwneud â mynediad i wybodaeth (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb, neu'ch ymateb cyfan, yn gyfrinachol, gwnawn ein gorau i barchu hynny, ond ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob amgylchiad. Os byddwch yn anfon ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost, ac ymwadiad cyfrinachedd awtomatig wedi ei

greu gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hynny yn ddo'i hun yn rhwymol ar y CFC

Sut i ymateb

Mae modd ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i www.pharmacyregulation.org/guidance-pharmacist-prescribers a chwblhau arolwg ar-lein yno.

Cysylltwch â ni ar communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r arolwg ymgynghori (mewn print mawr, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i:

feedback@pharmacyregulation.org

neu eu hanfon atom drwy'r post yn:

**Y Tîm Llywodraethiant
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn os gwelwch yn dda.

Cefndir

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn cyflawni rôl hollbwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel. Maen nhw'n gyfrifol am greu diwylliant proffesiynol sydd â phobl yn ganolog iddo lle bynnag y maen nhw'n gweithio, ac am sicrhau bod gwasanaethau presgripsiynu'n cael eu cyflawni'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae polisiâu'r llywodraethau'n newid ac mae'r gofynion gwahanol sydd gan wasanaethau iechyd a chleifion ar hyd a lled Prydain wedi dylanwadu'n fawr ar rôl presgripsiynwyr fferyllol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'i datblygu. Ar yr un pryd, mae nifer y presgripsiynwyr fferyllol anodedig wedi cynyddu'n sylweddol. Ar hyn o bryd, mae gennym dros 8000 o bresgripsiynwyr fferyllol anodedig ar ein cofrestr. Mae strategaethau fferyllol cenedlaethol yn amrywio o wlad i wlad ym Mhrydain, ond mae cydnabyddiaeth ym mhob man bod presgripsiynwyr fferyllol ymhob lleoliad gofal iechyd yn:

- gwneud y defnydd gorau posibl ar wybodaeth a sgiliau presgripsiynu fferyllwyr, ac yn
- ategu sgiliau aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd

Mae ein ***Cynllun Strategol 2017-20*** yn egluro ein nod i ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio i gefnogi a gwella darpariaeth gofal diogel ac effeithiol, a chynnal ffydd mewn fferylliaeth. Un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw drwy sicrhau bod gan bresgripsiynwyr fferyllol y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen.

Rydym wedi cynnal gwaith ymchwil dros y tair blynedd diwethaf. O'r gwaith hwn – ac o wybodaeth sydd wedi dod i law drwy ein harolwg ar bresgripsiynwyr (2016), ymholiadau rydyn ni wedi eu derbyn, achosion addasrwydd ymarfer, ein papur trafod ac ymgynghoriadau^{1,2} – rydyn ni wedi dod i ddeall yn well y materion sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- presgripsiynwyr fferyllol yn cael mynediad i gofnodion meddygol perthnasol
- datblygiad presgripsiynu ar-lein ac o bell, a
- phresgripsiynu categorïau penodol o feddyginiaethau

Rydym hefyd wedi ystyried canllawiau presgripsiynu eraill, gan gynnwys canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a'r Cyngor Ymarfer Cosmetig (JCCP).

¹ ***Papur trafod ar sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn derbyn meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol eraill yn ddiogel ar-lein***, CFFC, Mehefin 2018

² ***Ymgynghoriad ar safonau hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr fferyllol***, CFFC, Mawrth 2018

Rydym yn gweithio gydag asiantaethau rheoleiddiol eraill, yr Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Gofal Iechyd (MHRA), er enghraifft, a rheoleiddwyr systemau iechyd ledled Prydain, i helpu i adnabod materion sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, ac i sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae ein **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol** yn berthnasol i bob gweithiwr fferyllol ym Mhrydain, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol. O ystyried y cynnydd yn nifer y presgripsiynwyr fferyllol a datblygiad presgripsiynu o bell ac ar-lein, credwn ei bod yn angenrheidiol cyhoeddi canllawiau fel cymorth i bresgripsiynwyr fferyllol gyrraedd ein safonau.

Pwy yw'r presgripsiynwyr fferyllol?

Mae **presgripsiynydd fferyllol annibynnol** (PFfA) yn fferyllydd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r addysg cymeradwy perthnasol i ychwanegu anodiad at ei gofnod ar y gofrestr. Gall PFfA bresgripsiynu pob meddyginiaeth yn annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn cwmpas ei ymarfer a gallu clinigol. Yr eithriadau i hyn yw'r tri chyffur a reolir a ddefnyddir i reoli caethiwed i gyffuriau (cocên, dipipanone a diamorphine) a chynnyrch cannabis meddyginiaethol heb ei drwyddedu.

Mae **presgripsiynydd fferyllol ategol** (PFfAt) yn gweithio gydag ymarferydd meddygol neu ddeintyddol o fewn cynllun rheoli clinigol penodol (CRhC). Mae'r gyfraith yn nodi'r hyn sy'n rhaid ei gynnwys mewn CRhC, a'r cyfyngiadau ar yr hyn y gall PFfAt ei bresgripsiynu ac ym mha amgylchiadau. Gall PFfAt ddod yn PFfA drwy hyfforddi ymhellach a throsi ei gymhwyster, a gweithio fel PFfA a PFfAt.



Y canllawiau drafft

Mae'r canllawiau hyn yn nodi naw maes allweddol sy'n berthnasol i bresgripsiynu diogel ac effeithiol. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ystyried yr wyth maes cyntaf wrth baratoi presgripsiynau, er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Dyma'r meysydd allweddol:

1. derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'n ddiogel
2. sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn eich lefel gallu yn unig
3. gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sydd ag angen gofal
4. presgripsiynu mewn amgylchiadau penodol
5. presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol
6. presgripsiynu o bell
7. mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau penodol o bell
8. mynegi pryderon

Mae Adran 9 yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer perchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol.

Darllenwch y canllawiau drafft yn yr adran nesaf i gael rhagor o wybodaeth ynghylch cymhwyso'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Ar waith: Canllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol

Ynghylch y canllawiau hyn

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol**, y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd.

Dylid hefyd eu darllen ar y cyd â'n **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig**. Mae gan bob perchennog fferyllfa gyfrifoldeb dros gyrraedd y rhain, er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol o'r fferyllfa.

Ni all y canllawiau hyn ddelio â phob sefyllfa bosibl ac nid yw'n rhoi cyngor cyfreithiol, gan fod yn rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol gadw at gyfreithiau perthnasol beth bynnag.

Yn hytrach maent yn ganllawiau i presgripsiynwyr fferyllol i gymhwyso'r safonau at eu gwaith yn presgripsiynu. Mae'r canllawiau'n berthnasol boed eu bod yn gweithio'n breifat neu o fewn y GIG, ac mae'n nodi'r meysydd allweddol y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu hystyried wrth gymhwyso'r safonau i'w hymarfer presgripsiynu. Maen nhw hefyd yn berthnasol i presgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio o bell, gan

gynnwys y rhai sy'n presgripsiynu ar-lein, a phan fo perchnogion fferyllfeydd yn cyflogi neu'n mynd i gontract gyda presgripsiynydd fferyllol neu ddarparwr gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau presgripsiynu.

Rydym am i'r canllawiau hyn fod yn gefn i ddarpariaeth gofal a meddyginiaethau fferyllol sy'n briodol ac yn effeithiol, yn cadw at y gyfraith³ ac yn cyrraedd ein safonau. Credwn y bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer sefydliadau eraill sy'n cyflogi presgripsiynwyr fferyllol neu'n darparu gwasanaethau presgripsiynu mewn ystod o leoliadau.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol allu cyfiawnhau eu penderfyniadau a defnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth roi'r canllawiau hyn ar waith yn eu hymarfer.⁴

Dylai pob gweithiwr fferyllol proffesiynol fod yn gyfarwydd â'r materion sydd yn y canllawiau hyn, a deall eu cyfrifoldebau eu hunain o ran presgripsiynu.

Dylid hefyd ddarllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â dogfennau rheoleiddio a dogfennau GIG

³ I gael gwybodaeth ar ysgrifennu presgripsiynau a defnyddio presgripsiynau electronig, gweler ***Practical guide to prescribing*** y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a ***British National Formulary***

⁴ Mae'r CFFC yn gosod **safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg fferyllwyr i ddod yn PFFA**



perthnasol i Gymru, Lloegr neu'r Alban, ac unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan gyrff eraill⁵, gan gynnwys cyrff arwain proffesiynol a rheoleiddwyr eraill.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol hefyd gadw at safonau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i'w rôl a'u man gwaith. Gallai'r rhain, er enghraifft, gynnwys dogfennau gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal iechyd Cymru, Healthcare Improvement Scotland a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu⁶.

Mae gennym **ystod o ganllawiau ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i roi ein safonau ar waith.**

Presgripsiynu fferyllol

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn cyflawni rôl hollbwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd, ac mae amrywiaeth eu rolau'n cynyddu. Mae presgripsiynwyr fferyllol yn gyfrifol am greu diwylliant proffesiynol sydd â phobl yn ganolog iddo ym mha le bynnag y maen nhw'n gweithio, ac i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Gall presgripsiynydd fferyllol fod yn bresgripsiynydd fferyllol ategol (PFfAt) neu'n bresgripsiynydd fferyllol annibynnol (PFfA). Gall y ddau bresgripsiynu, cyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau.

Mae presgripsiynwyr fferyllol annibynnol (PFfA) yn gyfrifol am ac yn atebol dros asesiadau clinigol a rheoli pobl sydd â chyflyrau â diagnosis neu heb ddiagnosis, heb angen ymgynghori gyda phresgripsiynydd arall. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am y penderfyniadau presgripsiynu maen nhw'n eu gwneud, ac am briodoldeb y presgripsiynau maen nhw'n eu llofnodi.

⁵ **A competency framework for all prescribers**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Gorffennaf 2016. Mae'r fframwaith gallu sengl ar gyfer pob presgripsiynydd yn gosod casgliad cyffredin o alluoedd y mae'n rhaid i bob presgripsiynydd eu dilyn.

⁶ Mae'r CAG yn cyhoeddi **canllawiau ar safonau gofal ar eu gwefan Cosmetic interventions**. Awdurdod Safonau Hysbysebu, Ionawr 2016, a **chyngor ar-lein**, Chwefror 2015

Gall presgripsiynu ddiwydd mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol gyd-destunau. Gall gynnwys cyflenwi presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth bresgripsiwn yn unig, ond gall hefyd gynnwys rhoi cyngor i bobl ynghylch cyflenwi meddyginiaeth y gellir ei phrynu wrth y cownter a rhoi cyngor a gwybodaeth am bethau eraill.

Mae'r CFFC yn gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg fferyllwyr sy'n mynd yn eu blaen i fod yn PFFA.

Mae presgripsiynydd ategol yn gweithio gydag ymarferydd meddygol neu ddeintyddol o fewn cynllun rheoli clinigol (CRhC) penodol, ond nid yw'n presgripsiynu'n annibynnol.

Yn y canllawiau hyn, rydyn ni'n defnyddio'r term 'presgripsiynydd fferyllol' i olygu'r ddau, gan y galla y ddau weithio yn yr un lleoliadau.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'presgripsiynydd ategol'?

Mae presgripsiynydd ategol yn gweithio gydag ymarferydd meddygol neu ddeintyddol o fewn cynllun rheoli clinigol (CRhC) penodol. Mae'r gyfraith yn nodi'r hyn y gall PFFAt ei bresgripsiynu ac ym mha amgylchiadau. Gall PFFAt ddod yn PFFA drwy hyfforddi ymhellach a throsi ei gymhwyster, a gall wedyn weithio fel PFFAt a PFFA.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'presgripsiynydd fferyllol annibynnol'?

Mae presgripsiynydd fferyllol annibynnol yn fferylllydd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r addysg sy'n angenrheidiol ar gyfer ychwanegu anodiad at ei gofnod yn y gofrestr. Gall PFFa bresgripsiynu pob meddyginiaeth yn annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn cwmpas ei ymarfer a gallu clinigol. Yr eithriadau i hyn yw'r tri chyffur a reolir a ddefnyddir i drin caethiwed (cocên, , dipipanone a diamorphine), a chynnyrch meddygol canabis sydd heb eu trwyddedu (CBMPau).

Yn sgil newid yn y gyfraith yn Nhachwedd 2018 daeth canabis a pheth cynnyrch meddygol canabis (CBMPau) yn gyffuriau atodlen 2 dan Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001. Fodd bynnag, dim ond gan feddyg arbenigol wedi ei gofrestru ar Gofrestr Arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol y gellir presgripsiynu CBMPau. Pan fo sylwedd yn derbyn awdurdodaeth farchnata, ni fydd y cyfyngiad presgripsiynu hwn bellach ar waith, a bydd y cynnyrch ar gael i'w ddefnyddio gan gleifion yn yr un ffordd â chyffuriau atodlen 2 eraill. Gall presgripsiynwyr fferyllol hefyd bresgripsiynu meddyginiaethau milfeddygol sy'n cael eu hystyried yn feddyginiaethau presgripsiwn yn unig, yn unol â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol sydd ar waith ar hyn o bryd.



1. Derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'n ddiogel

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol â phobl yn ganolog iddo pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn trin pob person fel unigolyn gyda'i werthoedd, anghenion a phryderon ei hun.

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn gyfrifol am ac yn atebol dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys pan fônt yn presgripsiynu ac am y presgripsiynau y byddant yn eu llofnodi. I gadw risg i gleifion mor isel ag sy'n ymarferol bosibl a gwella diogelwch cleifion, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod presgripsiynu'n cael ei wneud ar sail tystiolaeth, a'i fod yn ddiogel ac yn briodol.

Rhaid i benderfyniadau presgripsiynu gael eu gwneud mewn partneriaeth gyda'r person sy'n cael ei asesu, er mwyn sicrhau bod y gofal yn diwallu ei anghenion a bod y presgripsiynydd wedi cael ei ganiatâd⁷ i bresgripsiynu. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol, fel eu bod yn ymddwyn er budd gorau y person a dim ond yn presgripsiynu'r meddyginiaethau y gwyddant eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer y cyflwr maen nhw'n ei drin.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gyfathrebu'n effeithiol gyda'r person er mwyn:

- deall ei anghenion

- sicrhau bod angen clinigol dilys am y driniaeth, a
- dod at benderfyniad ar y cyd ynghylch y gofal a ddarperir

Mae hyn yn cynnwys cael yr holl wybodaeth berthnasol gan y person, a rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'r person mewn ffordd ddealladwy fel y gall wneud dewisiadau a phenderfyniadau doeth. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol dderbyn cyfrifoldeb dros sicrhau nad yw gofal â phobl yn ganolog iddo yn cael ei beryglu gan eu credo a'u gwerthoedd personol. Rhaid iddyn nhw ddeall bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr proffesiynol yn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau diwylliannol.

Er mwyn diogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed, mae'n bwysig bod presgripsiynwyr fferyllol yn gwybod at bwy i atgyfeirio, a sut i weithredu, pan fo angen. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth bresgripsiynu o bell.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol reoli cymelliadau⁸ neu dargedau. Rhaid iddyn nhw sicrhau bod y gofal maen nhw'n ei ddarparu yn adlewyrchu anghenion y person ac nad yw'n

⁷ ***Ar Waith - canllawiau ar gydsyniad***, CFFC, Mehefin 2018

⁸ ***Joint statement from the Chief Executives of statutory regulators of health and care: conflict of interest*** and

Focus on conflicts of interest, Regulate, Awst 2017 (mae'r erthygl yn cynnwys astudiaethau achos ar gyfarwyddyd presgripsiynu)

peryglu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

I bresgripsiynu'n ddiogel, mae'n bwysig gallu cael mynediad at gofnodion meddygol person. Fodd bynnag, mae mynediad yn gallu amrywio ac mae risgiau posibl ynghlwm wrth bresgripsiynu heb gofnodion o'r fath.

Wrth bresgripsiynu, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y tri maes canlynol:

Bod â'r wybodaeth angenrheidiol i allu presgripsiynu'n ddiogel

Dylent ystyried a oes ganddynt wybodaeth ddigonol am iechyd y person a'i hanes meddygol⁹, gan gynnwys defnyddio cofnodion megis cofnodion cryno gofal (yn Lloegr), neu'r **crynodeb gofal brys (yn yr Alban)** pan fo'r rhain ar gael.

Dylent ystyried risgiau:

- presgripsiynu ar gyfer gwahanol grwpiau o gleifion (er enghraifft, babanod, plant, pobl ifanc, menywod a merched sy'n gallu cael plant, menywod beichiog a rhai sy'n llaetha, a phobl hŷn)
- presgripsiynu rhai categorïau penodol o feddyginiaethau (er enghraifft, cyffuriau a reolir) ac mewn rhai amgylchiadau penodol
- ymddygiad ceisio amhriodol am feddyginiaethau
- ceisiadau am symiau mawr o feddyginiaethau
- ceisiadau mynych
- presgripsiynu mewn gwahanol gyd-destunau

a gwneud eu gorau glas i gadw'r risgiau hynny mor isel â phosibl.

⁹ Gallai hyn gynnwys, darganfod gwybodaeth am: adweithiau negyddol blaenorol neu alergeddau i feddyginiaethau; alergeddau i gynnyrch bwyd a blasu; defnydd diweddar o feddyginiaethau eraill, gan gynnwys meddyginiaethau rheolaidd, meddyginiaethau aciwt (gwrthfotigau byr

dymor, er enghraifft); meddyginiaethau OTC, llysieuol, amgen ac eraill a brynir ar-lein a chyflyrau meddygol eraill. Dylent annog y person i fod yn agored am y ffordd mae'n cymryd ei feddyginiaethau, ac am ei ymlyniad at y meddyginiaethau sydd wedi eu presgripsiynu.

Presgripsiynu'n ddiogel

Dylent:

- bresgripsiynu'n unol â chanllawiau cenedlaethol, lleol a chlinigol¹⁰ - ar sail tystiolaeth – pryd bynnag y bo'n bosibl
- pan fônt yn ystyried nad yw'n briodol presgripsiynu, esbonio'r rhesymau wrth y person ac egluro unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael iddo
- presgripsiynu ddim ond o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth, sgiliau a maes gallu
- asesu'r person yn llawn, a chynnal archwiliad corfforol pan fo angen, mewn amgylchedd addas sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd y person
- atgyfeirio'r person i weithiwr gofal iechyd priodol pan fo angen archwilio neu asesu ychwanegol
- bod yn gallu dangos bod pob trefniant presgripsiynu'n dryloyw, ac nad ydynt yn achosi gwrthdaro mewn buddiannau megis: cyfeirio presgripsiynol (cyfeirio pobl at fferyllfa benodol er rhesymau masnachol); cyfyngu ar ddewis person; dylanwadu'n ormodol ar bobl sy'n gofyn am wasanaethau presgripsiynu, neu eu camarwain, yn fwriadol neu mewn camgymeriad
- presgripsiynu ac adolygu meddyginiaethau'r person, a chyfathrebu a chofnodi unrhyw newidiadau i gofnod meddygol y person yn brydlon. Er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio, dylai hyn gynnwys: cofnod o drafodaethau, yn enwedig pan fo presgripsiynu y tu allan i ganllawiau cenedlaethol neu ar gyfer meddyginiaeth heb drwydded¹¹; y rhesymau dros eu penderfyniadau presgripsiynu; a threfniadau ar gyfer ôl-ofal a monitro.
- sicrhau bod penderfyniadau presgripsiynu'n cael eu gwneud ar sail anghenion y person unigol ac nid er budd masnachol neu dan bwysau gan bobl eraill, cydweithwyr neu gwmnïau fferyllol
- ystyried effaith eu presgripsiynu ar y person maen nhw'n presgripsiynu ar ei gyfer
- ystyried pryd y gallai fod yn briodol tynnu meddyginiaethau yn ôl, roi'r gorau i gyflenwi meddyginiaethau, peidio â phresgripsiynu meddyginiaeth neu newid dôs meddyginiaeth
- adolygu presgripsiynau amlroddadwy yn rhan o wasanaeth presgripsiynau

¹⁰ NICE (Lloegr), Scottish Medicines Consortium and Health Improvement Scotland, Department for Health, Social Services and Public Safety (Gogledd Iwerddon), Grŵp Meddyginiaethau Strategol Cymru Gyfan

(Cymru) a cholegau meddygol a ffynonellau awdurdodol eraill

¹¹ Gweler **canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n paratoi meddyginiaethau didrwydded**, CFFC, Awst 2018

amlroddadwy'r GIG ¹² neu'r **gwasnaeth meddyginiaeth gronig**, neu wrth adolygu meddyginiaethau person; gwirio a fu newidiadau yn ei amgylchiadau, megis arhosiad mewn ysbyty, neu newidiadau i'w feddyginiaethau yn sgil ymweliad ag ysbyty neu â'r cartref

- sicrhau bod presgripsiynau amlroddadwy'n cael eu creu'n ddiogel gan staff sydd â'r gallu i baratoi awdurdodaeth presgripsiynu amlroddadwy
- yn achos meddyginiaeth ddirwydded, neu un sydd wedi ei thrwyddedu ond yn cael ei defnyddio at ddiben heb ei drwyddedu, yn sicrhau nad oes meddyginiaeth drwyddedig ar gael i ddiwallu anghenion y person
- meddu ar ddigon o dystiolaeth o ddiogelwch, effeithiolrwydd a phriodoldeb meddyginiaeth ddirwydded neu oddi ar label. Mae rhai meddyginiaethau'n aml yn cael eu defnyddio y tu allan i dermau eu trwydded, mewn paediatreg er enghraifft

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'meddyginiaeth ddirwydded'?

Mae'r term 'meddyginiaeth ddirwydded' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio y tu allan i delerau'r drwydded sydd ganddynt yn y DU neu nad oes trwydded ar gyfer eu defnyddio yn y DU. Maen nhw'n cael eu defnyddio'n aml mewn gofal pediatreg lliniarol. Efallai y bydd angen presgripsiynu meddyginiaethau ddirwydded pan na fo meddyginiaeth drwyddedig ar gael i ddiwallu anghenion claf. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan nad oes meddyginiaeth drwyddedig ar gael i glaf penodol, neu pan mai fersiwn oedolion yn unig sydd wedi ei thrwyddedu, a'r claf yn blentyn, neu pan na fo meddyginiaeth drwyddedig ar gael mewn cyfnod o brinder meddyginiaethau. Mewn argyfyngau, efallai na fydd wastad yn briodol egluro bod meddyginiaeth yn ddirwydded, os yw hyn yn debygol o beri gofid i glaf neu ofalwr.

¹² Mae gwasanaeth presgripsiynau amlroddadwy'r GIG yn broses lle mae cyfres o bresgripsiynau'n cael eu hysgrifennu heb

fod angen cyfeirio yn ôl at y presgripsiynydd. Dim ond yng Nghymru a Lloegr mae hyn ar waith.



Ôl-ofal

Dylent:

- ddarparu gwybodaeth – gan gynnwys taflenni gwybodaeth i gleifion – mewn ffordd y gall y person eu deall, a gwirio ei fod wedi eu deall
- defnyddio mecanweithiau adrodd ar gyfer adweithiau meddygol a amheuir, a gweithredu os oes angen atgyfeirio ar frys at weithiwr gofal iechyd arall
- sicrhau bod y person sy'n derbyn gofal yn gwybod sut i adrodd am adweithiau i feddyginiaeth a gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes ganddo gwestiynau neu bryderon

2. Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn eich lefel gallu

Gall presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu mewn llawer o leoliadau clinigol a therapiwtig gwahanol, naill ai fel arbenigwyr neu presgripsiynwyr cyffredinol. Mae'r rolau hyn yn parhau i ddatblygu ac ehangu. Rhaid i bresgripsiynwyr felly gynnal, datblygu a defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol sy'n berthnasol i'w rôl a'u maes presgripsiynu. Dylent ddefnyddio **Safonau'r CFfC ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol presgripsiynwyr fferyllol** a'r deilliannau dysgu, yn ogystal â'r ffynonellau cyfeirio amrywiol¹³, i'w helpu i adnabod unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth.

O ran cyflwr y claf a'r meddyginiaethau sydd ar gael i reoli ei ofal iechyd, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth, sgiliau a gallu clinigol. Rhaid iddynt gynnal y galluoedd sy'n benodol i'w rôl fel presgripsiynwyr a chwmpas eu hymarfer, ac adfyfrio ar eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau. Wrth bresgripsiynu mewn maes newydd, dylent ddilyn unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen arnynt, a bod yn gyfarwydd â'r adnoddau perthnasol, i sicrhau eu bod yn alluog yn y maes. Pan fo cyflwr person y tu allan i gwmpas gallu presgripsiynydd, rhaid iddo atgyfeirio'r person at bresgripsiynydd arall priodol.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod rhai o'u cofnodion ail-ddilysu'n ymwneud yn uniongyrchol â'u rôl fel presgripsiynydd fferyllol. Dylai hyn gynnwys meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau perthnasol yn y gyfraith a'r maes therapiwtig maen nhw'n gweithio ynddo. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio **fframwaith ail-ddilysu'r CFfC** i gynllunio ac arddangos bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf wrth bresgripsiynu.

Er mwyn gwella eu sgiliau a'r gofal a ddarparant, dylai presgripsiynwyr fferyllol archwilio a monitro eu gwaith presgripsiynu'n rheolaidd. Os ydyn nhw'n gweithio y tu allan i leoliadau'r GIG lle gall systemau llywodraethu fod yn wahanol, neu gael eu gweithredu'n wahanol, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau eu bod yn alluog i ymarfer. Rhaid iddyn nhw ddangos sut maen nhw'n:

- archwilio eu hymarfer
- sicrhau eu bod yn gwybod am y canllawiau diweddaraf, a
- diogelu pobl yn eu gofal

Dylai presgripsiynwyr fferyllol wirio'n gyson bod eu hyswiriant indemniad yn dal yn weithredol ar gyfer unrhyw rolau presgripsiynu ychwanegol neu wahanol maen nhw'n ymgymryd â nhw, ac adolygu'r trefniadau yn ôl yr angen.

¹³ Diweddariadau diogelwch cyffuriau MHRA, Gwasanaeth Rhybuddion Canolog y GIG, Llyfrgell Electronig Meddyginiaethau NICE, cymuned meddyginiaethau a phresgripsiynu, y

Medicines Compendium electronig, taflenni gwybodaeth i gleifion (PILs), British National Formulary (BNF) a'r British National Formulary for Children (BNFC)

3. Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n derbyn gofal

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gyfathrebu'n effeithiol, a gweithio mewn partneriaeth, gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n derbyn gofal, i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Rhaid iddynt fod yn agored ac yn onest gyda'r person sy'n derbyn gofal a'r sawl y maen nhw'n presgripsiynu ar eu cyfer. Dylent sicrhau bod pobl yn gwybod eu bod yn presgripsiynu fel presgripsiynydd fferyllol, naill ai fel rhan o'r GIG neu drwy drefniant preifat, ac am unrhyw ffioedd sy'n daladwy.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau eu bod yn cadw cyfrinachedd¹⁴ a phreifatrwydd person, gan fod hyn yn rhan hollbwysig o'r berthynas rhwng presgripsiynydd fferyllol a'r person sy'n derbyn gofal.

3.1 Gweithio gyda phobl sy'n derbyn gofal a rhannu gwybodaeth gyda'r meddyg presgripsiynu

Mae meddu ar holl wybodaeth feddygol berthnasol person yn hollbwysig i sicrhau presgripsiynu diogel. Gellir cael y wybodaeth hon drwy gyfathrebu â phresgripsiynydd arferol y person neu drwy gael mynediad at gofnod meddygol y person. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ofyn i'r person am ganiatâd i gael

mynediad i'w cofnodion meddygol, neu gael gwybodaeth ddibynadwy arall am iechyd a meddyginiaethau'r person gan ei bresgripsiynydd arferol os oes ganddo un. Er mwyn sicrhau gofal sydd â phobl yn ganolog iddo, rhaid iddynt roi gwybodaeth eglur i'r person sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau doeth, a rhaid iddynt drafod opsiynau eraill sydd ar gael pan na fo presgripsiynu'n briodol. Dylent gofnodi pob penderfyniad, gan gynnwys pan fônt yn penderfynu peidio â phresgripsiynu a'r rhesymau pam.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol benderfynu a allant bresgripsiynu'n ddiogel pan:

- na fo ganddynt fynediad at gofnodion meddygol person
- fo'r person yn gwrthod rhoi caniatâd i gysylltu â'i bresgripsiynydd arferol i gael rhagor o wybodaeth
- na fo'r person wedi ei atgyfeirio gan ei bresgripsiynydd at y presgripsiynydd fferyllol, neu pan
- na fo gan y person bresgripsiynydd arferol (megis Meddyg Teulu)

Dylid rhannu gwybodaeth presgripsiynu gyda phresgripsiynydd arferol y person, neu eraill sydd ynghlwm wrth ei ofal, er mwyn i'r person

¹⁴ ***Ar Waith: Canllawiau ar gyfrinachedd.***

CFFC, Mehefin 2018

dderbyn gofal diogel ac effeithiol. Dylai'r presgripsiynydd fferyllol roi pob darn perthnasol o wybodaeth i'r presgripsiynydd arall (er enghraifft, gwybodaeth am y meddyginiaethau a bresgripsiynwyd, y rheswm dros unrhyw newidiadau, a gofynion monitro pellach) yn gywir ac yn brydlon. Dylid cofnodi'r wybodaeth hon yn glir.

Pan fo gofalmwr yn gofyn am wybodaeth ynghylch meddyginiaethau ar ran person, dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod ganddynt ganiatâd y person i ddatgelu'r wybodaeth hon. Os nad oes gan y person y gallu i roi caniatâd, rhaid iddynt benderfynu a yw rhannu o'r budd gorau iddo.

3.2 Gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gymryd cyfrifoldeb dros eu hymarfer a darparu arweiniad i'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu mewn amgylcheddau megis cartrefi gofal, cartrefi nyrsio neu hosbisau gyfathrebu gyda'r person sy'n derbyn gofal ganddynt a rhoi'r wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol iddynt.

Rhaid iddynt sicrhau bod y person a'i ofalwr yn deall pob gwybodaeth a roddir iddynt.

Pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn presgripsiynu yn sgil argymhelliad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, maen nhw'n parhau'n broffesiynol atebol am bob presgripsiwn a lofnodant. Rhaid iddynt sicrhau bod y presgripsiwn yn briodol, yn ateb gofynion y person ac yn galluogi gofal parhaus.

Pan fo person yn symud¹⁵ rhwng lleoliadau gofal, dylai presgripsiynwyr fferyllol wirio'r wybodaeth a ddarperir. Dylent sicrhau bod pob darn o wybodaeth am feddyginiaethau'r person wedi ei gofnodi'n gywir ac yn cael eu trosglwyddo gyda nhw.

Pan fônt yn rhannu cyfrifoldeb dros ofal person gyda chydweithiwr, rhaid iddynt sicrhau bod llinellau clir o atebolrwydd a bod ganddynt allu i ymgymryd â'u rhan nhw o'r cyfrifoldeb clinigol. Os ydyn nhw'n gyfrifol am ddiagnosis neu asesiad cychwynnol person, rhaid iddynt ddarganfod yr holl wybodaeth sydd ei hangen i'w galluogi i bresgripsiynu. Dylai unrhyw benderfyniad ynghylch cyfrifoldeb dros ôl-ofal a monitro fod er budd y person, a'i gyfathrebu'n glir i bawb sydd ynghlwm wrth y trefniant.

¹⁵ ***Keeping patients safe when they transfer between care providers - getting the***

medicines right, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2012



Os yw presgripsiynydd fferyllol yn goruchwyllo presgripsiynydd arall sydd dan hyfforddiant, fel ymarferydd presgripsiynu dynodedig (YPD), rhaid iddo arddangos arweinyddiaeth a goruchwyliaeth briodol¹⁶ er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu.

4. Presgripsiynu mewn amgylchiadau penodol

4.1 Presgripsiynu ar eu cyfer eu hunain, eu teulu a'u ffrindiau

Ni ddylai presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu ar eu cyfer eu hunain nac unrhyw un y mae ganddynt berthynas bersonol agos ag ef neu hi (megis aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr), heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo cyffuriau a reolir a chyffuriau y gellir eu camdrin yn cael eu presgripsiynu.

Gall presgripsiynwyr fferyllol, mewn amgylchiadau eithriadol, bresgripsiynu pan:

- nad oes presgripsiynydd arall ar gael i asesu cyflwr clinigol person, ac y byddai oedi mewn presgripsiynu'n bygwth bywyd neu iechyd y person neu achosi poen neu ofid annerbyniol, neu
- pan fo'r driniaeth yn angenrheidiol yn ddi-oed i:
 - achub bywyd
 - osgoi dirywiad difrifol yn iechyd a lles person, neu
 - leddfu poen neu ofid na ellir eu lleddfu mewn unrhyw ffordd arall

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol, wrth bresgripsiynu ar eu cyfer eu hunain neu unrhyw un arall y mae ganddynt berthynas agos ag ef neu hi:

¹⁶ **Papur cyngor y CFfC o gyfarfod Rhagfyr 2018** – yn nodi y bydd y Gymdeithas Fferyllol frenhinol yn datblygu fframwaith galluoedd ar

gyfer YPDau. **Nodir hyn hefyd ar wefan y GFFf**

- allu cyfiawnhau eu penderfyniad i bresgripsiynu, a
- gwneud cofnod clir, yn cynnwys natur y berthynas gyda'r person a'r rheswm pam ei bod yn angenrheidiol presgripsiynu, fel bod llwybr archwilio clir ar gael

Dylent hefyd ystyried a oes angen asesiad clinigol annibynnol gan bresgripsiynydd arall ar y person. Y rheswm dros hyn yw sicrhau nad yw'r person y maent yn presgripsiynu ar ei gyfer yn dylanwadu ar eu crebwyll proffesiynol.

4.2 Presgripsiynu a chyflenwi

Fel arfer, dylai presgripsiynwyr fferyllol gadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i'r gwaith o gyflenwi'r meddyginiaeth, er diogelwch y person. Efallai y bydd rhai amgylchiadau pan fo angen meddyginiaethau'n ddi-oed ar berson, ac y byddai gofal â phobl yn ganolog iddo neu ddiogelwch y person yn cael ei beryglu pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei darparu yn ddi-oed. Efallai na fydd opsiynau eraill, megis atgyfeirio at fferyllfa arall, ar gael.

Os yw presgripsiynydd fferyllol yn presgripsiynu ac yn cyflenwi rhaid i hynny fod o fewn cwmpas ei ymarfer, a rhaid i'r presgripsiynydd gael trefniadau llywodraethu gwydn ar waith. Pan yn bosibl, dylai person â gallu addas fod ynghlwm wrth gynnal y gwiriad cywirdeb terfynol a'r gwiriad priodoldeb clinigol.

Rhaid i'r presgripsiynydd fferyllol wneud cofnod o'r presgripsiynu a'r rheswm dros ei benderfyniad.

4.3 Presgripsiynu, cyflenwi a gweinyddu

Pan fo presgripsiynydd fferyllol yn presgripsiynu, cyflenwi a gweinyddu – mewn achosion o feddyginiaethau cosmetig anfeddygol neu frechiadau teithio, er enghraifft – dylai sicrhau y darperir gofal â phobl yn ganolog iddo, a sicrhau mai gofal dros y person yw'r flaenoriaeth. Os bydd y presgripsiynydd fferyllol yn dirprwyo'r gwaith gweinyddu i berson arall, rhaid iddo sicrhau bod gan y person hwnnw yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i weinyddu'r meddyginiaethau'n ddiogel.

5. Presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol

Mae nifer gynyddol o fferyllwyr esthetig nawr yn presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol. Mae gan bresgripsiynwyr fferyllol rôl bwysig i'w chyflawni yn y gwaith o sicrhau presgripsiynu diogel ac effeithiol yn y maes hwn, a chadw risgiau i'r person at lefel mor isel â phosibl. Rhaid iddynt ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol i ymddwyn er budd gorau'r person a sicrhau mai dim ond meddyginiaethau sy'n briodol y maen nhw'n eu presgripsiynu – gan roi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith pan fo angen.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu ac yn cyflenwi cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol fod wedi eu hyfforddi'n briodol¹⁷. Rhaid iddynt bresgripsiynu a chyflenwi cynnyrch cosmetig anfeddygol yn unol â chanllawiau arfer da,^{18,19} a dim ond ar ôl i berson gael ei archwilio'n

gorfforol. Am y rheswm hwn, nid yw'n briodol cynnal ymgynghoriad o bell ar gyfer cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol eu bodloni eu hunain bod y gwasanaethau maent yn eu darparu yn ateb gofynion cofrestru a rheoleiddio perthnasol. Rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw waith meddygol yn cael ei wneud mewn dull priodol a phroffesiynol, ac mewn amgylchedd sydd yn ddiogel ac yn briodol at y gwaith sy'n cael ei wneud. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod unrhyw berson maen nhw'n dirprwyo gwaith gyda'r cynnyrch hwn iddo neu iddi wedi ei hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith.

¹⁷ Mae'r JCCP a'r CPSA wedi cynhyrchu **canllawiau ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu ymyriadau cosmetig**. Cafodd Health Education England eu comisiynu gan yr Adran Iechyd yn 2015 i **ddatblygu anghenion cymhwyso ar gyfer darparu ymyriadau cosmetig anfeddygol**. Nod y gwaith hwn oedd gwella a safoni'r hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr. Mae'r hyfforddiant angenrheidiol yn dibynnu ar brofiad blaenorol ac yswiriant digonol.

¹⁸ **Canllawiau ar gyfer meddygon sy'n cynnig ymyriadau cosmetig**, CMC, Mehefin 2016

¹⁹ **Safonau Prffesiynol ar gyfer Llawdriniaeth Gosmetig**, RCS, 2016, **Gofynion cymhwyso ar gyfer darparu triniaethau cosmetig**, NHS HEE, 2015, **Adroddiad ar weithredu gofynion cymhwyso ar gyfer triniaethau cosmetig**, NHS HEE, 2015, **Cod Ymarfer**, British Association of Aesthetic Plastic surgeons, 2013, **Cod ymarfer**, British Association of Plastic Reconstructive and Aesthetic Surgeons, 2016

Cyn presgripsiynu neu roi meddyginiaethau cosmetig anfeddygol, rydym yn disgwyl i bresgripsiynwyr fferyllol:

- feddu ar yr hyfforddiant a'r profiad angenrheidiol i ymarfer yn ddiogel a gwybod pan fo meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu yn ateb gofynion canllawiau cymeradwy
- meddu ar yswiriant indemniad proffesiynol ar gyfer gweithgareddau GIG a phreifat
- meddu ar ganiatâd y person i wneud y gwaith
- bod yn gyfarwydd â'r weithdrefn, beth sydd ynghlwm wrthi, faint o amser fydd ei angen ac a yw'r cynnyrch wedi ei drwyddedu'n briodol
- ystyried a oes gan y person y gallu i gydsynio i'r gwaith sy'n cael ei wneud
- ystyried anghenion seicolegol y person
- bod yn fodlon peidio â phresgripsiynu neu wneud y gwaith os ydynt o'r farn nad ydynt yn addas, neu os oes angen rhagor o amser ar y person i ystyried. Yn yr achos hwn, dylai'r presgripsiynydd fferyllol esbonio pam, trafod opsiynau eraill a chofnodi'r penderfyniadau
- sicrhau, os ydynt yn dirprwyo'r gwaith gweinyddu, mai dim ond i bobl sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar y gallu y maen nhw'n gwneud hynny

Dylai presgripsiynwyr fferyllol weithio gyda'r person i sicrhau bod ganddo'r wybodaeth angenrheidiol i gyd i allu gwneud dewisiadau doeth, er mwyn sicrhau:

- bod ganddo ddisgwyliadau realistig
- ei fod yn deall y risgiau a'r cymhlethdodau posibl a allai ddeilio o'r gwaith a'i ganlyniadau
- ei fod yn meddu ar ddigon o wybodaeth i benderfynu a yw am i'r gwaith gael ei wneud
- ei fod yn meddu ar ddigon o wybodaeth fydd yn gefn i barhad gofal²⁰
- ei fod yn gwybod pa ôl-ofal fydd yn cael ei ddarparu, a'i fod
- yn gwybod pryd a ble i gael help os bydd adwaith negyddol i'r gwaith neu os aiff unrhyw beth o'i le

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod Meddyg Teulu'r person yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

²⁰ Ansawdd gofal dros amser yw ystyr cysondeb gofal. Mae'n broses lle mae tîm gofal, dan arweiniad Meddyg Teulu, yn cydweithio i

ddarparu gofal iechyd diogel ac effeithiol drwy gydol y broses driniaeth.

6. Presgripsiynu o bell

Pwysig: Yn yr adran hon, mae'r canllawiau drafft yn cyfeirio at ganllawiau eraill fydd yn cael eu cyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac a allai newid cyn eu cyhoeddi.

Yn fwyfwy aml, mae pobl yn cyrchu gwasanaethau presgripsiynwyr fferyllol o bell, yn hytrach na thrwy ddulliau wyneb-yn-wyneb traddodiadol²¹. Bydd hyn dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo, neu'n fwy aml ar-lein. Yn yr achosion hyn, dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau y gallant wneud asesiadau clinigol diogel ac effeithiol, cyfathrebu'n effeithiol a chael cydsyniad pobl.

Mae gan bresgripsiynu meddyginiaethau o bell, naill ai'n rhan o wasanaeth presgripsiynu ar-lein neu'n annibynnol ar y rhyngwrdd, risgiau gwahanol i' rhai sy'n bodoli pan fo ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb.

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn atebol dros eu penderfyniadau presgripsiynu. Dim ond pan fo ganddynt wybodaeth berthnasol am iechyd person a'i hanes meddygol, ac wedi eu bodloni eu hunain bod y gofal yn ateb gofynion y person, y dylent bresgripsiynu. Mae hyn yn cynnwys pan fo presgripsiynau'n cael eu gwneud o bell.

Os nad oes gan bresgripsiynwyr fferyllol fynediad at gofnodion meddygol person, neu os nad ydynt wedi cynnal ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb â'r person, dylent esbonio wrth y person

sut bydd yr ymgynghoriad o bell yn cael ei gynnal.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu ar gyfer pobl mewn gwledydd eraill geisio cadw at unrhyw gyfreithiau sydd ar waith. Mae gan wahanol wledydd gyfyngiadau gwahanol ar waith, ac mae rhai gwledydd yn gwahardd cyflenwi meddyginiaethau ar-lein yn llwyr. Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod gan y meddyginiaethau maen nhw'n eu cyflenwi yr awdurdodaeth farchnata sydd ei hangen yn y wlad maen nhw'n cael eu hanfon iddi²². Dylent sicrhau y gall y person gael y feddyginiaeth a'u bod wedi ystyried enw trwyddedig y cynnyrch a'r drefn dosio yn y wlad honno.

Pwy bynnag yw'r person maen nhw'n presgripsiynu ar ei gyfer, ac ym mha le bynnag y mae'r person hwnnw, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol asesu a rheoli unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth eu presgripsiynu a'r gofal a ddarparant. Cyn cynnal ymgynghoriad o bell, dylai presgripsiynwyr fferyllol ystyried:

- sut gallant ddilysu hunaniaeth y person
- y cyfyngiadau sydd ar gyfathrebu effeithiol gyda'r person wrth ymgynghori o bell (peidio â gallu gweld eu symptomau corfforol neu ddarllen iaith y corff, peidio â gallu holi cwestiynau dilynol)
- a all asesu a oes gan y person y gallu i benderfynu ar ei feddyginiaethau

²¹ Gweler **Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrdd.** CFC, Ebrill 2015

²² Rheol 28 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygiad) 2013

7. Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau penodol o bell

Pwysig: Yn yr adran hon, mae'r canllawiau drafft yn cyfeirio at ganllawiau eraill fydd yn cael eu cyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac a allai newid cyn eu cyhoeddi.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol fod yn ymwybodol bod rhai categorïau o feddyginiaethau nad ydyn nhw'n briodol eu presgripsiynu a'u cyflenwi o bell onid bai bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol. Mae'r categorïau'n cynnwys:

- **gwrthficrobalau (antibiotigau)**
– pan fo'n bwysig reoli'r defnydd sydd arnynt, er mwyn arafu ymwrthedd i gyffuriau a sicrhau bod gwrthficrobalau'n parhau'n driniaeth effeithiol ar gyfer heintiau. Dim ond yn unol â chanllawiau arfer da y dylid cyflenwi'r rhain, gan ystyried canllawiau stiwardiaeth gwrthficrolabau sy'n berthnasol i'r person a'i leoliad
- **meddyginiaethau y mae tuedd ei camddefnyddio neu eu gorddefnyddio, neu pan fo risg o fynd yn gaeth ac mae monitro parhaus yn bwysig**
– er enghraifft, opiadau, tawelyddion, cyffuriau carthio, pregabalin, gabapentin
- **meddyginiaethau sydd ag angen monitro neu reoli parhaus arnynt**
– er enghraifft, meddyginiaethau â mynegai therapiwtig cul²³, a meddyginiaethau a ddefnyddir i drin diabetes, asthma, epilepsi

a chyflyrau iechyd meddwl. Enghraifft benodol o hyn yw sodium valproate sy'n cael ei ddefnyddio i drin epilepsi ac anhwylder deubegwn, ond sy'n cyflwyno risg oedi datblygu a chamffurfiad i fabanod yn y groth

- **cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol**
– yn unol â chanllawiau arfer da, dim ond ar ôl archwiliad corfforol o berson y dylid presgripsiynu a chyflenwi'r rhain

Os yw presgripsiynydd fferyllol yn penderfynu presgripsiynu o bell neu weithio gyda gwasanaeth presgripsiynu ar-lein, dim ond pan fo'r canlynol yn wir am y presgripsiynydd y dylid presgripsiynu'r categorïau uchod o feddyginiaethau:

- mae ganddo brosesau gwydn ar waith i wirio hunaniaeth, er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn mynd i'r person cywir
- ei fod wedi gofyn i'r person am fanylion cyswllt ei bresgripsiynydd arferol, megis ei Feddyg Teulu, ac am ei ganiatâd i gysylltu ag ef ynghylch y presgripsiwn
- y bydd yn rhannu, mewn ffordd ragweithiol, yr holl wybodaeth berthnasol am y presgripsiwn gyda gweithwyr gofal iechyd eraill sydd ynghlwm wrth ofal y person (megis ei Feddyg Teulu)

²³ Mae cyffuriau â mynegai therapiwtig cul yn rhai sydd â gwahaniaeth bach rhwng y dds

therapiwtig â'r dds gwenwynig. Er enghraifft, lithium, warfarin, digoxin.

- bod ganddo systemau ar waith i alluogi'r tîm fferyllol i gofnodi'n glir benderfyniad y presgripsiynydd i baratoi presgripsiwn, os nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol megis Meddyg Teulu neu pan nad oes cydsyniad i rannu gwybodaeth
- ei fod yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu a chanllawiau arfer da ar gyfer y DU²⁴

8. Mynegi pryderon

Dylai pob gweithiwr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol, godi llais pan fo ganddynt bryderon neu pan fo pethau'n mynd o chwith²⁵. Mae ansawdd y gofal a dderbynnir yn gwella pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn dysgu o gamgymeriadau ac adborth a phan fônt yn herio ymarfer ac ymddygiad gwael. Mae'n bwysig i bresgripsiynwyr fferyllol gofnodi, adrodd am a dysgu gan gamgymeriadau ac enghreifftiau o bethau bron yn mynd o chwith, er mwyn rheoli risgiau ac osgoi'r un camgymeriadau eto.

Os yw unrhyw weithiwr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol, yn ystyried gwaith presgripsiynu cydweithiwr yn anniogel, dylent gwestiynu'r penderfyniad neu'r weithred, a mynegi gofid os gallai fod risg i iechyd a lles person. Pan fo gan bresgripsiynwyr fferyllol bryderon am ddata presgripsiynu, rhaid iddynt fynegi'r rhain hefyd.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol adfyfrio ar adborth neu bryderon sydd wedi eu mynegi gan gydweithwyr, pobl neu ofalwyr ynghylch eu hymarfer eu hunain a gweithredu, pan fo angen, i atal yr un peth rhag digwydd eto.

²⁴ **Good practice in prescribing and managing medicines and devices**, CMC, Chwefror 2013

A Competency Framework for all Prescribers, CffF, Gorffennaf 2016
Mae'r CAG yn cyhoeddi **canllawiau ar safonau gofal ar eu gwefan**
Mae NICE hefyd yn cyhoeddi **ystod o ganllawiau ar eu gwefan**

Mae gan y CMC **ganllawiau ar rannu gwybodaeth gyda chydweithwyr** ar eu gwefan

Valproate banned without the pregnancy prevention programme, erthygl newyddion MHRA, Ebrill 2018

²⁵ **Ar Waith: Mynegi pryderon, Mai CFFC Mai 2017**

9. Gwybodaeth ar gyfer perchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd gael trefniadau llywodraethu ar waith sy'n amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Rhaid i berchnogion fferyllfeydd adnabod a rheoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddarparu a rheoli gwasanaethau fferyllol, gan gynnwys gwasanaeth presgripsiynu a allai fod ar-lein.

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd sy'n cyflogi presgripsiynwyr fferyllol sicrhau:

- bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau proffesiynol a chyfreithiol, ac yn gallu defnyddio'u crebwyll proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd
 - eu bod yn gallu adnabod a rheolir risgiau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau presgripsiynu o bell (gan gynnwys ar-lein), er mwyn sicrhau ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol
 - bod pob aelod o'r tîm fferyllol yn gyfarwydd â'r meysydd sydd wedi eu codi yn y canllawiau hyn ac yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain o ran presgripsiynwyr fferyllol
 - pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn cynnal asesiadau ac yn darparu profion diagnostig i asesu cyflwr person, bod yr offer a'r cyfleusterau yn y fferyllfa'n ddiogel ac yn cael eu cynnal yn briodol
 - bod ganddynt systemau ar waith i sicrhau y gall y presgripsiynydd fferyllol gofnodi ei benderfyniadau i baratoi presgripsiynu pan na fo gan bobl Feddyg Teulu neu pan nad oes cydsyniad i rannu gwybodaeth
- nad yw cymelliadau neu dargedau'n peryglu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd, neu grebwyll proffesiynol staff

9.1 Gweithio gyda gwasanaethau presgripsiynu ar-lein

Ni ddylai perchnogion fferyllfeydd weithio gyda darparwyr ar-lein sy'n ceisio osgoi'r oruchwyliaeth reoleiddio sydd ar waith o fewn y DU i ddiogelu cleifion yn y system gofal iechyd. Gallai gweithio gyda phresgripsiynwyr nad ydyn nhw wedi eu cofrestru'n briodol gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol yn y DU, a gyda phresgripsiynwyr nad ydyn nhw yn y DU, greu risgiau i gleifion a'r cyhoedd. Os yw perchennog fferyllfa'n penderfynu gweithio gyda phresgripsiynwyr neu wasanaethau presgripsiynu o'r tu allan i'r DU, rhaid iddo sicrhau:

- ei fod yn rheoli'n llwyddiannus y risgiau ychwanegol y gallai hyn eu creu
- bod ganddo yswiriant indemniad digonol ar waith ar gyfer:
 - y gwasanaeth sy'n defnyddio presgripsiynwyr neu wasanaethau presgripsiynu sydd y tu allan i'r DU, a
 - staff fferyllol sy'n cyflenwi meddyginiaethau yn erbyn presgripsiynau wedi eu paratoi gan y presgripsiynwyr neu'r gwasanaethau presgripsiynu hyn



- bod y presgripsiynydd yn gofrestredig yn y wlad lle mae'r presgripsiwn yn cael ei wneud ac yn gallu darparu presgripsiynau ar-lein yn gyfreithlon
- bod y presgripsiynydd yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu'r DU

Cwestiynau i'w holi i chi'ch hun

Mae rhai cwestiynau isod y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu gofyn iddyn nhw'u hunain wrth ystyried sut gallan nhw sicrhau ac arddangos eu bod wedi darparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo.



Ffynonellau gwybodaeth eraill

Gall presgripsiynwyr fferyllol gael rhagor o ganllawiau a gwybodaeth gan gyrff proffesiynol, darparwyr yswiriant indemniad a chyrrff annibynnol eraill fel y rhai a restrir isod:

A Competency framework for all prescribers, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Gorffennaf 2016

A guide to good prescribing practice for prescribing pharmacists in NHS Scotland, NHS Education for Scotland, Gorffennaf 2012

A practical guide to support pharmacist independent prescribers, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Tachwedd 2018

Cosmetic procedures - what do I need to consider, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Mehefin 2016

Good practice in prescribing and managing medicines and devices, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Mawrth 2013

Guidance for doctors who offer cosmetic interventions, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Mehefin 2016

Presgripsiynu anfeddygol yng Nghymru, Grŵp Meddyginiaethau Strategol Cymru Gyfan, Mai 2017

Prescribing: maintaining competence and confidence Canolfan Addysg Fferyllol Ôl-radd, Chwefror 2017

Prescribing specials, Ebrill 2016

Qualification requirements for delivery of cosmetic procedures: non-surgical cosmetic interventions and hair restorative surgery, Health Education England, Tachwedd 2015

Standards for the education and training of pharmacist independent prescribers, CFC, Ionawr 2019

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Pwysig: Mae rhannau o'r canllawiau wedi eu seilio ar ofynion yn safonau'r CFFC ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac ni fyddant yn newid yn sgil yr ymgynghoriad hwn. Rydyn ni eisoes wedi ymgynghori ar rai rhannau o'r canllawiau yn ein papur trafod ar ddarpariaeth gwasanaethau ar-lein ddiogel ac effeithiol, felly nid ydym wedi gofyn cwestiynau pellach ar y rhain. Mae hyn yn golygu na fydd yr holl adborth a dderbyniwn yn arwain at newid os yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r safonau neu ag ymgynghoriad blaenorol.

Rydym yn croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol. Ewch i www.pharmacyregulation.org/guidance-pharmacist-prescribers i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Barn ar y cynigion

Meysydd allweddol ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, rydym wedi nodi naw maes allweddol sy'n ymwneud â sicrhau presgripsiynu diogel ac effeithiol.

1. Ydyn ni wedi nodi pob maes sydd ei angen i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

2. Ar gyfer pob un o'r naw maes allweddol, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r canllawiau rydym wedi eu cynnig?

1. Derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'n ddiogel
2. Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn eich lefel gallu
3. Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n derbyn gofal
4. Presgripsiynu mewn amgylchiadau penodol
5. Presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol
6. Presgripsiynu o bell
7. Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau penodol o bell
8. Mynegi pryderon
9. Gwybodaeth ar gyfer perchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol

3. Esboniwch eich ymateb i'r ddau gwestiwn uchod.

(Bydd cwestiynau'n cael eu holi yn nes ymlaen yn yr ymgynghoriad ynghylch yr hyn y dylai fod rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ei wneud i bresgripsiynu'n ddiogel, ac i wneud gwaith presgripsiynu a chyflenwi; ac am y mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu o bell.)

Presgripsiynu'n ddiogel

Yn adran 3.1 ein cynigion rydym yn dweud bod meddu ar wybodaeth am holl fanylion meddygol perthnasol person yn hollbwysig ar gyfer presgripsiynu'n ddiogel. Gellir cael y wybodaeth hon o gyfathrebu gyda phresgripsiynydd arferol y person neu drwy gael mynediad at gofnodion meddygol person. Rydym yn darparu canllawiau ar yr hyn y mae'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ei wneud i bresgripsiynu'n ddiogel, gan gynnwys:

- gofyn am gydsyniad y presgripsiynydd arferol i gael mynediad at gofnodion meddygol person
- rhoi wybodaeth glir i'r person sy'n derbyn gofal er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad doeth, a
- thrafod pob opsiwn arall sydd ar gael pan na fo presgripsiynu'n briodol

Rydym hefyd yn disgrifio amgylchiadau lle bydd rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol benderfynu a allant bresgripsiynu'n ddiogel, megis pan:

- na fo ganddynt fynediad at gofnodion meddygol y person
- fo'r person yn gwrthod rhoi caniatâd i gysylltu â'i bresgripsiynydd arferol i gael rhagor o wybodaeth
- na fo'r person wedi ei atgyfeirio at y presgripsiynydd fferyllol gan ei bresgripsiynydd arferol ei hun, neu
- na fo gan y person bresgripsiynydd arferol (megis Meddyg Teulu)

4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai dyma'r amgylchiadau lle bydd yn rhaid i bresgripsiynydd benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel ar gyfer person?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn gwybod

5. Oes unrhyw amgylchiadau eraill pan fydd yn rhaid i bresgripsiynydd benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel ar gyfer person?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

6. Esboniwch eich ymateb i'r ddau gwestiwn uchod a disgrifiwch unrhyw amgylchiadau eraill y dylid eu hystyried.

Presgripsiynu a chyflenwi

Yn adran 4.2 ein cynigion rydym yn dweud y dylai presgripsiynwyr fferyllol gadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i'r gwaith o gyflenwi meddyginiaethau, er diogelwch y claf. Disgrifiom amgylchiadau eithriadol lle mae'n bosibl y bydd angen presgripsiynu a chyflenwi, ac wedi nodi rhai amgylchiadau penodol lle gall presgripsiynydd bresgripsiynu a chyflenwi'n rheolaidd – wrth roi brechiadau teithio, er enghraifft.

7. Oes unrhyw amgylchiadau eraill yn eich barn chi lle dylai presgripsiynydd allu presgripsiynu a chyflenwi?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

8. Disgrifiwch unrhyw amgylchiadau ychwanegol y dylid eu hystyried.

Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai categorïau penodol o feddyginiaethau

Yn adran 7 ein cynigion, rydym yn disgrifio presgripsiynu o bell, gan gynnwys ar-lein, ar gyfer rhai categorïau penodol o feddyginiaethau. Rydym yn dweud bod rhai meddyginiaethau penodol yn amhriodol eu presgripsiynu o bell oni bod mesurau diogelwch pellach wedi eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol.

Yn ein papur trafod diweddar ar ein canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwyd, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid rhoi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith cyn presgripsiynu o bell, er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau'n glinigol briodol ar gyfer y person.

Rydym wedi cynnig pump o fesurau diogelwch i sicrhau bod rhai categorïau o feddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu'n ddiogel. Dywed y rhain bod yn rhaid i'r presgripsiynydd:

- gael prosesau gwydn ar waith i wirio hunaniaeth, er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu'n mynd at y person cywir
- bod wedi gofyn i'r person am fanylion cyswllt ei bresgripsiynydd arferol, megis ei Feddyg Teulu, ac am ei ganiatâd i gysylltu â nhw ynghylch y presgripsiwn
- rhannu gwybodaeth am y presgripsiwn mewn ffordd ragweithiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd ynghlwm

wrth ofal y person (ei Feddyg Teulu, er enghraifft)

- cael systemau ar waith i alluogi'r tîm fferyllol i gofnodi'n glir benderfyniad y presgripsiynydd i ddarparu presgripsiwn os nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol, megis Meddyg Teulu, neu os nad oes caniatâd i rannu gwybodaeth
- gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol ar gyfer y DU a chanllawiau arfer da

9. Oes unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhai meddyginiaethau penodol yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel o bell?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

10. Disgrifiwch unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol y credwch y dylid eu rhoi ar waith.

Effaith y cynigion

Rydym yn awyddus i glywed barn am effaith y canllawiau drafft.

11. Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar gleifion a'r cyhoedd?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith gadarnhaol a negyddol

Dim effaith

Ddim yn gwybod

12. Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar bresgripsiynwyr fferyllol?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol
Effaith gadarnhaol a negyddol
Dim effaith
Ddim yn gwybod

13. Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar weithwyr fferyllol proffesiynol eraill?

Effaith gadarnhaol
Effaith negyddol
Effaith gadarnhaol a negyddol
Dim effaith
Ddim yn gwybod

14. Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd?

Effaith gadarnhaol
Effaith negyddol
Effaith gadarnhaol a negyddol
Dim effaith
Ddim yn gwybod

15. Rhowch sylwadau'n esbonio eich ymatebion i gwestiynau 11 i 14.

Effaith ar gydraddoldeb

Rydym am ddeall a allai ein cynigion gamwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, neu eu gosod dan anfantais yn anfwriadol. Rydym hefyd am ddeall a allai ein cynigion fod o fudd i unrhyw rai o'r unigolion neu grwpiau hyn.

16. Ydych chi o'r farn y bydd ein cynigion yn effeithio'n negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig a restrir isod? Ticiwch bob un perthnasol.

Oed
Anabledd
Ailbennu rhywedd
Priodas a Phartneriaeth Sifil
Beichiogrwydd a mamolaeth
Hil
Crefydd neu gredo
Rhyw
Cyfeiriadedd rhywiol
Dim un o'r uchod

17. Ydych chi o'r farn y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig a restrir isod. Ticiwch bob un perthnasol.

Oed
Anabledd
Ailbennu rhywedd
Priodas a Phartneriaeth Sifil
Beichiogrwydd a mamolaeth
Hil
Crefydd neu gredo
Rhyw
Cyfeiriadedd rhywiol
Dim un o'r uchod

18. Disgrifiwch yr effaith ar bob un o'r unigolion neu grwpiau rydych wedi eu ticio yng nghwestiynau 16 ac 17.



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, London E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPHC](https://twitter.com/TheGPHC)
 [TheGPHC](https://www.facebook.com/TheGPHC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org